UMPA
Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
21 Tachwedd 2017
Ystafell Bwyllgor

Presennol:
Bruce Fraser Wight (BFW) - Swyddog Datblygu'r Undeb, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr
Gwion Llwyd Williams (GLlW) - Swyddog Diwylliant Cymreig / Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr
Jessica Williams (JW) - Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr ac Ymddiriedolwr
Emma Beenham (EB) - Swyddog Materion Academaidd ac Ymddiriedolwr
Molly Jean-Longden (MJL) - Swyddog Llesiant ac Ymddiriedolwr
Alan Roberts (AR) - Ymddiriedolwr Allanol
Ryan Beasley (RB) - Ymddiriedolwr Allanol
Olymbia Petrou (OP) - Ymddiriedolwr Allanol

Skype
Peter Curran (PC) - Ymddiriedolwr Allanol

Yn gwasanaethu:
Trish McGrath (TM) - Prif Weithredwr UMPA
Annmarie Evans (AE) - Cynorthwyydd Gweithredol UMPA (yn cymryd cofnodion)

GWEINYDDIAETH Y CYFARFOD

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu pawb a hysbysu'r Bwrdd, oherwydd gwall yn Statws y Myfyriwr, na fyddai'r Ymddiriedolwr Ô-R etholedig yn gallu ymgymryd â'r rôl.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
   Dim

2. **Datganiadau o Fuddiannau**
   Ni chofnodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 17 Mawrth, fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

   Yn yr adran ar bresenoldeb - mae angen newid rôl Molly Jean-Longden o Swyddog Lles i Swyddog Llesiant a rôl Emma Beenham o Swyddog Academaidd i'r Swyddog Materion Academaidd.
   Cymeradwywyd

4. **Materion sy'n Codi**

Rhoddodd TM yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd parthed e-bost PC ynghylch y Polisi Arian Wrth Gefn, a chytunodd y Bwrdd y byddem yn diweddaru'r polisi i ganiatáu am bedwar mis o arian wrth gefn.
Cytunwyd

STRATEGAETH

5. **Cyllid: Cyfrifon Rheolaeth**
   Cyflwynodd TM y Cyfrifon Rheolaeth hyd at 17 Hydref ac esboniodd y rheswm dros fod o flaen y gyllideb.
   Nodwyd

   Dileu Asedau Sefydlog
   Cytunodd y Bwrdd fod gwerth yr asedau a gedwir yn ddarfodedig ac yn amhosib eu defnyddio, a chânt i gyd eu dileu yn Natganiadau Ariannol 2016.
   Gweithredu - TM

   Mandadau Banc
   Cymeradwyodd yr Ymddiriedolwyr benodiad Swyddog Datblygu'r Undeb a'r Swyddog Llesiant fel llofnodwyr newydd.
   Cymeradwywyd

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**
   Cyflwynodd TM ei hadroddiad Prif Weithredwr i'r Ymddiriedolwyr, oedd yn cynnwys y diweddaraf ar Wythnos y Glas, Strategaeth, Cyllidebu, Staffio / Adnoddau Dynol, Gwefan ac App, Gofod Undeb y Myfyrwyr, Cynrychiolwyr Academaidd, Gwasanaeth Cynghori, Democratiaeth, Gwirfoddoli, Iechyd a Diogelwch, Tîm Aber a digwyddiadau Cyfleoedd i Fyfyrwyr.
   Nodwyd

7. **Adroddiadau Swyddogion**
   Cyflwynodd y swyddogion grynodeb o'u gweithgareddau ers y cyfarfod diwethaf.
   Nodwyd

8. **Dangosyddion Perfformiad Allweddol**
   Rhoddodd TM drosolwg o'r DPA a ddiweddarwyd fel y dangosir yn y papurau a ddarparwyd.
   Nodwyd

9. **Cyngor yr Undeb**
   Darparwyd y Bwrdd â'r diweddaraf ar bolisïau a basiwyd yn y Cyngor. Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â chael y polisïau ar y wefan, gyda diweddariadau byw a chamau cynaliadwy, wedi'u hychwanegu at y DPA.
   Gweithred - TM (cyfredol)

10. Cod Llywodraethu Elusennau

Eglurodd TM ei bod am dynnu sylw'r Bwrdd at y Cod / Canllawiau Llywodraethu Elusennau.
Nodwyd

11. Recriwtio Ymddiriedolwyr Allanol

Efallai y byddwn yn mynd yn ôl i recriwtio a byddwn yn ystyried recriwtio'n lleol a thrwy WCVA.
Gweithred - Cyfredol

12. Unrhyw fusnes arall

Cinio Nadolig - bydd Annmarie yn anfon e-bost ar wahân atoch ynglŷn â manylion ein cinio Nadolig eleni ac a ydych am fynychu'r achlysur.

Dirprwy Gadeirydd - Cymeradwywyd RB fel dirprwy gadeirydd

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf

I'w gadarnhau

Diwedd y Cyfarfod